DEUPARTH FFORDD EI GWYBOD

G-olwg

Cylch-lythyr Newyddion Ysgol Gyfun Garth Olwg

Haf 2017

Ffarwelio a Chroesawu - Newidiadau Staffio

Dymunwn ymddeoliad da a hir i Miss Menna Thomas a Miss Menna Lewis sy'n ffarwelio â ni ar ôl mwy na 30 mlynedd o wasanaeth yr un i ysgol Rhydfelen ac yna Garth Olwg. Mawr fydd y colled ar ôl y ddwy. Dymuniadau gorau hefyd i Miss Sioned Roberts ar ei swydd newydd a Miss Carys Hurley wrth iddi fynd ymlaen â'i gyrfa.
Pleser hefyd yw croesawu staff newydd atom ym mis Medi:
Rhodri Williams (Drama), Kameron Harrhy (Cymraeg), Lowri Woodington (i'r adran Fioleg ar gyfnod mamolaeth), Sian Ogleby (Cynorthwydd), Sian Williams (Cynorthwydd / Athrawes), Thomas Moore (Mathemateg), Catherine Parfitt-Evans (Gofalwr Cynorthwyol), Keith Thomas (Gofalwr).

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i Ethan Williams am ddod yn 1af ac yn 2il yng nghystadleuaeth cyfansoddi blynyddoedd 12 a 13 ac i Mali Widgery am ddod yn 3ydd. Da iawn hefyd i Kai Easter, blwyddyn 8 a ddaeth yn ail yn y dawnsio hip-hop unigol blwyddyn 7,8 a 9 ac i Osian Gruffydd, blwyddyn 12 am ddod yn 3ydd ar yr unawd llinynnol blynyddoedd 10-13. Yn ogystal â hyn, clywyd ffanfer Osian drwy'r wythnos yn y seremonïau. Llongyfarchiadau hefyd i Jenna Hill a lwyddodd i ennill gwobr am safon uchel yng nghystadleuaeth Fathemateg yr Urdd.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i bob un wnaeth gystadlu yng nghystadlaethau Celf yr Eisteddfod. Daeth Molly Wilce o flwyddyn 8 yn ail drwy'r sir yn y lluniadu 2D, Carys Murphy o flwyddyn 8 yn ail drwy'r sir gyda'i gwaith ffotograffiaeth yn y print lliw a hefyd daeth Lowri Williams o flwyddyn 8 yn ail drwy'r sir ar gyfer ei gwaith 3D creadigol.

Llongyfarchiadau hefyd i'n disgyblion o flynyddoedd 12 a 13 ar eu llwyddiannau. Enillodd Jake Howe o flwyddyn 12 y gyfres o brintiau lliw o fewn y categori ffotograffiaeth yn y sir a llwyddodd Millie Newman o flwyddyn 13 ennill yn y sir a daeth yn ail yn y gystadleuaeth cyfres o brintiau monocrom ar draws Cymru. Llongyfarchiadau mawr i Nyasha Thomas, blwyddyn 12 ar ennill y cyfres o brintiau lliw yn y categori ffotograffiaeth dros Gymru. Braf oedd gweld gwaith Nyasha a Millie yn y babell Gelf ar y maes ym Mhen-y-bont.



Da iawn i bawb gystadlodd a chyfrannu yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Dyddiadau Hanner Tymor	Dechrau	Diwedd
1 (Hydref 2017)	5/9/17	27/10/17
2 (Hydref 2017)	6/11/17	22/12/17
3 (Gwanwyn 2018)	8/1/18	16/2/18
4 (Gwanwyn 2018)	26/2/18	29/3/18
5 (Haf 2018)	16/4/18	25/5/18
6 (Haf 2018)	4/6/18	20/7/18

Dyddiadau Diwrnodau HMS
Dydd Llun 4ydd Medi 2017
Dydd Gwener 29ain Medi 2017
Dydd Gwener 17eg Tachwedd 2017
Dydd Llun 23ain Gorffennaf 2018
Dydd Mawrth 24ain Gorffennaf 2018

Ydych chi wedi cofrestru eto?

Yn dilyn ein hymgynghoriad diweddar gyda rhieni, rydym wedi penderfynu newid y system gyfathrebu â'r cartref. Mae Schoolcomms yn gweithio'n fwy effeithiol gyda'n system gweinyddol yn yr ysgol. Gobeithiwn y bydd hyn yn gwella ein gweithdrefnau cyfathrebu gyda rhieni. Bydd gwybodaeth dal yn cael ei danfon drwy e-bost neu neges destun ond, yn ddelfrydol, drwy ap sydd am ddim o'r enw 'School Gateway'. Mae ar gael ar y llwyfannau canlynol; Apple (iOS 8 ar y iPhone 4S neu'n ddiweddarach, iPad, iPod Touch) ac Android (4.0 / Ice Cream Sandwich neu'n ddiweddarach).

DEUPARTH FFORDD EI GWYBOD

G-olwg

Cylch-lythyr Newyddion Ysgol Gyfun Garth Olwg

Bwrsari Nuffield

Llongyfarchiadau i Caitlin Brown, Nyasha Thomas a Joe Thomas sydd wedi llwyddo ennill lle ar leoliad gwyddonol a byddant wir yn elwa o'r gwaith ymchwil. Mae'n broses gystadleuol iawn ac rydym yn hynod o falch fel ysgol bod 3 o'n disgyblion wedi llwyddo i ennill y fath brofiad. Edrychwn ymlaen at weld eu gwaith prosiect yn yr Hydref.

Yn ogystal bydd Nyasha hefyd yn treulio wythnos yn ystod yr haf ar y Môr Du ar long ymchwil yn cyfrannu at y prosiect 'Black Sea MAP' (http://blackseamap.com/) fel 1 o 16 ysgolhaig o'r Deyrnas Unedig, yn gwneud gwaith archeolegol.

Mae hwn yn dipyn o gamp ac estynnwn llongyfarchiadau mawr iawn iddi a phob lwc ar ei hantur!

Gwobrwyo gwaith Tîm.

Ar y 11eg o Orffennaf cynhaliwyd noson wobrwyo YEPS, gwasanaeth addysg a chyfranogiad ieuenctid RhCT. Roedd grŵp bl.10 sy'n astudio'r cymhwyster Agored Cymru - Sgiliau Byd Gwaith, wedi eu enwebu am wobr. Categori'r wobr oedd achrediad ac roedd y grŵp wedi'u enwebu am eu gwaith caled dros y flwyddyn diwethaf. Roedd yr enwebiad hefyd o ganlyniad i'w sgiliau gweithio mewn tîm yn ystod alldaith gyda Gwasanaeth Awyr Agored yr Urdd. Llongyfarchiadau mawr i'r criw am ddod yn ail ar y noson.

Hoffai'r disgyblion ddiolch i Miss Shauna Richards am ei gwaith caled a'i chefnogaeth i'r grŵp.

Gŵyl y Gelli

Cafodd disgyblion blwyddyn 9 gyfle i fynd i Ŵyl y Gelli eleni. Roedd y tywydd yn heulog dros ben; tywydd perffaith ar gyfer y daith. Roedd llawer o awduron yn yr ŵyl gan gynnwys Daniel Morden, Pete Kalu a Katherine Webber. Gawson ni gyfle i weld sioe robot hefyd! Siaradodd yr awduron yn wych gan annog plant i beidio rhoi'r ffidl yn y to ac i anelu am y sêr. Roedd yna lawer o lefydd i fwyta, stondinau a siopau llyfrau. Roedd hi'n braf gweld llawer o ysgolion Cymraeg a Saesneg yn dod at ei gilydd i fwynhau a dathlu llenyddiaeth.

Gan Aeryn Pywell, Mari Fowler ac Erin Mantle, Bl. 9.

Ymweld â Chomisiynydd Plant Cymru

Ym mis Mehefin, cafodd dau aelod o'n cyngor ysgol, Lewys Williams ac Efan Fairclough y cyfle i gwrdd â Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru ynghyd ag aelodau cyngor 8 ysgol arall yn ysgol Gyfun Bro Edern. Roedd Sally yn awyddus i drafod gyda'r disgyblion ac fe ofynnwyd cwestiynau heriol iddi yn ogystal. Yn ystod y dydd edrychodd y disgyblion ar Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar hawliau plant – **CCUHP**.



Cyflwynodd Efan a Lewys ar erthygl 6 – yr hawl i fywyd ac i fod yn iach. Bydd ein cyngor yn cyflwyno mwy o ddefau hawliau plant i weddill yr ysgol flwyddyn nesaf.

Er mwyn cael y newyddion diweddaraf dilynwch ni:

@Garth_Olwg, @MathGarth, @GwyddGarth

DEUPARTH FFORDD EI GWYBOD

G-olwg

Cylch-lythyr Newyddion Ysgol Gyfun Garth Olwg

Chwaraeon

Pencampwyr Athletau Cymru a Mabolgampau'r ysgol

Rydym yn hynod o falch eleni o'n athletwyr sydd wedi dangos llwyddiant mewn nifer o gystadleuthau ar draws y wlad yn ystod tymor yr haf. Mae Tîm bechgyn blwyddyn 10 yn enwedig wedi serennu. Yr uchafbwynt oedd cystadleuaeth genedlaethol athletau a chafodd ei gynnal yn Aberhonddu ar ddydd Iau Gorffennaf y 13eg. Gyda nifer fawr o ysgolion yn bresennol llwyddodd y bechgyn ennill y gystadleuaeth gan guro ysgol Stanwell gyda nifer uwch o fedalau arian. Llongyfarchiadau i Tom Stevens, Alex Halliday, Josh Karadogan, Dan John, Ethan Goode, Ben smith, Rhys Morgan, Brandon Payne, James Moore, James Hobbs, Will Holmes am fod yn bencampwyr bechgyn Cymru 2017!

Y diwrnod canlynol yn stadiwm athletau Caerdydd, cafwyd mwy o gystadlu athletaidd ym mabolgampau'r ysgol. Roedd yr ymarfer a chystadlu blaenorol yn amlwg wedi talu ar ei ganfed ac fe dorrwyd nifer anghredadwy o recordiau ysgol ar ddiwrnod braf yng Nghaerdydd. Llys Dafydd aeth â'r darian eleni ond llongyfarchiadau i bawb wnaeth gymryd rhan.

Garth Olwg yn Bencampwyr Pêl Droed Rhondda a Phontypridd!

Coronwyd tîm bechgyn blwyddyn 10 ym mhencampwyr Rhondda a Phontypridd ar ôl buddugoliaeth gref wrth guro Ysgol Bryncelynnog 4-0. Rhaid canmol ymrwymiad y garfan gyfan yn enwedig Rhys Morgan a ddychwelodd yn gynnar o daith criced yng Ngogledd Lloegr. Perfformiad heb ei ail gydag amddiffyn cadarnhaol a sawl unigolyn yn serennu wrth ymosod.

Rhaid sôn am gyfraniad allweddol Corey Thomas ac Ethan Vaughan o flwyddyn 9 i'r fuddugoliaeth. Rheolodd Garth Olwg y gêm o ganol cae a gosodwyd y sylfaen i berfformiad unochrog a nodedig. Sgoriodd Josh Karadogan 2 gan gynnwys cic gosb, Adam Stanton o gornel a gôl unigol a thrawiadol gan Ethan Vaughan i goroni perfformiad disglair. Does dim amheuaeth, gall y garfan hon deimlo balchder am eu perfformiad ac mae'r dyfodol yn edrych yn ddisglair iddynt. Ardderchog!

Angerdd a dygnedd oedd dau o'r prif bethau roedd angen eu dangos yng ngêm derfynol cwpan pêl-droed Pontypridd a'r Rhondda. Dechreuodd y gêm ar sain y chwiban. Roedd yn ddechreuad ffyrnig a hyderus gan fois y chweched. Ymosodon ni, ffliciodd Sam Richards (seren y tîm) y bêl i Tomos West a sgoriodd gôl daclus. 1-0 i'r bois mewn gwyrdd. Nes ymlaen daeth cornel i ni, camodd Jordan Thomas i fyny a chroesi i mewn i Oliver Kittridge a beniodd y bêl i' rhwyd, 2-0 i ni. Daeth gôl ychwanegol cyn chwiban hanner amser wrth i Daniel Parry redeg a phasio'n gywir i Sam Richards am gôl 'gymharol syml'. 3-0, ar hanner amser. Y gêm wedi'i hennill! Neu dyna beth roeddem ni'n ei feddwl!

Ymhen dim ar ôl hanner amser roedd Treorci wedi ymateb ddwywaith gan wneud y sgôr yn 3-2. Roedd pethau yn llai cyfforddus ac roedden ni'n cael ein gwthio'n galed gan ymosodiadau cyson y gwrthwynebwyr. Ond ar ôl addasiad i'n tactegau, sgoriodd Sam gôl arall i roi ni 4-2 ar y blaen. Profodd hyn yn arwyddocaol iawn oherwydd sgoriodd Treorci ac roedd hi'n 4-3 yn y munudau olaf.

Llongyfarchiadau mawr i'r bois i gyd am berfformiad llawn calon ac agwedd penderfynol. #dewchybois

Gan Tomos West bl12

Llongyfarchiadau hefyd i tîm blwyddyn 11 a aeth drwodd i'r rownd derfynol dan 16 hefyd. Yn anffodus ni chawsom gyfle i'w gwneud yn dri cwpan allan o dri eleni ond edrychwn ymlaen i gystadlaethau blwyddyn nesaf gyda brwdfrydedd. Diolch i Mr Rhodri Jones a Mr Eurig Thomas am ein cefnogi a'n helpu i gynnal y timoedd.

DEUPARTH FFORDD EI GWYBOD

G-olwg

Cylch-lythyr Newyddion Ysgol Gyfun Garth Olwg

Newsletter - Summer 2017

Farewell and welcome - Staffing changes

We wish Miss Menna Thomas and Miss Menna Lewis a contented and long retirement after more than 30 years of service each to Rhydfelen and then Garth Olwg. We will miss them both very much. Our best wishes also go to Miss Sioned Roberts on her new post and to Miss Carys Hurley as she progresses in her career.
It is also a pleasure to welcome new staff to us in September: Rhodri Williams (Drama), Kameron Harrhy (Welsh), Lowri Woodington (to the Biology Department to cover maternity leave), Sian Ogleby (Learning Support Assistant), Sian Williams (LSA / teacher), Thomas Moore (Mathematics), Catherine Parfitt-Evans (Assistant Caretaker) and Keith Thomas (Caretaker).

The Urdd Eisteddfod

Congratulations to Ethan Williams on coming 1st and 2nd for music composition for years 12 and 13 and to Mali Widgery for coming 3rd. Well done to Kai Easter, year 8 who came second in the individual hip-hop dancing competition for years 7, 8 and 9 and to Osian Gruffydd, year 12 for coming 3rd in the String Solo for years 10-13. In addition, Osian's fanfare was heard throughout the week during the ceremonies. We also extend our congratulations to Jenna Hill who won an award for her high standards in a Mathematics competition.

Congratulations to all who competed in the Eisteddfod Art competitions. Molly Wilce, year 8, came second throughout the County for 2D drawing, Carrie Murphy from year 8 came second in the County for her photographic colour print work and Lowri Williams, also from year 8, came second in the County for her creative 3D work.

Our year 12 and 13 pupils were also successful. Jake Howe, year 12, won in the county photography category with his series of colour prints while Millie Newman, year 13, won within the County, and came second nationally, with a series of monochrome prints. Congratulations to Nyasha Thomas, year 12, on winning a gold medal with a series of colour prints in the photography category. It was great to see Nyasha and Millie's work on display in the Art exhibition at the Eisteddfod in Bridgend.





Well done to everyone who competed and contributed during the Eisteddfod week.

Half term Dates	Start	End
1 (Winter 2017)	5/9/17	27/10/17
2 (Winter 2017)	6/11/17	22/12/17
3 (Spring 2018)	8/1/18	16/2/18
4 (Spring 2018)	26/2/18	29/3/18
5 (Summer 2018)	16/4/18	25/5/18
6 (Summer 2018)	4/6/18	20/7/18

Dates for INSET days 2017-18
Monday 4th September 2017
Friday 29th September 2017
Friday 17th November 2017
Monday 23rd July 2018
Tuesday 24th July 2018

Have you registered yet?

Schoolcomms
Keeping You Informed

Subsequent to recent research and consultations with parents, we have decided to employ a different system of home-school communication. Schoolcomms works far more intrinsically with our on-site school administration software and we hope that this will allow us to improve our links with parents. Information will continue to be sent via email, text or preferably via the free app available for download called 'School Gateway' for Apple (iOS 8 on the iPhone 4S or later, iPad, iPod Touch) and Android (4.0 / Ice Cream Sandwich or later) devices.

DEUPARTH FFORDD EI GWYBOD

G-olwg

Cylch-lythyr Newyddion Ysgol Gyfun Garth Olwg

Newsletter - Summer 2017

Nuffield Bursaries

Congratulations to Caitlin Brown, Nyasha Thomas and Joe Thomas who have managed to win a place on a scientific placement in the summer and will really benefit from the research work. It is an extremely competitive process and we are very proud as a school that 3 of our pupils have been accepted to gain such an experience. We look forward to see their project work in the autumn. Well done!

Nyasha will be having a very busy summer as she has also been selected for one of only 16 UK scholarships to spend a week on a Research vessel, contributing to the 'Black Sea MAP' project (http://blackseamap.com/)

This is an incredible achievement and we extend our congratulations and wish her luck on her adventure!

Teamwork Award.

On the 11th of July, an awards ceremony was held by the RCT Youth engagement and participation Service (YEPS). Our year 10 group that studies the Agored Cymru level 2 qualification in work skills were nominated for the accreditation category. They were commended for their hard work over the year whilst studying this course. The nomination was made as a result of the excellent teamwork the group showed whilst on an outdoor expedition with the Urdd open air activity Service. Well done to the pupils on being awarded second place on the night.

The pupils would like to thank Miss Shauna Richards for her hard work and support.

The Hay Festival

Year 9 pupils were given the opportunity to go to the Hay Festival, Hay-on-Wye this year. The sunny weather was perfect for the journey. There were many writers at the Festival including Daniel Morden, Pete Kalu and Katherine Webber. We had the opportunity to see a robot show too! The authors spoke brilliantly and encouraged the children to not give up and to aim for the stars. There were lots of places to eat, stands to visit and bookshops. It was good to see so many Welsh and English language schools coming together to enjoy and celebrate literature.

by Aeryn Pywell, Mari Fowler ac Erin Mantle, Y.9.

Meeting the Children's Commisioner for Wales

Earlier this term two members of the school council, Efan Fairclough and Lewys Williams, were given the opportunity to meet Sally Holland, Children's Commisioner for Wales. The meeting was part of a pupil voice conference with eight other schools held at Ysgol Bro Edern. Sally was very keen to talk and discuss with the pupils and some challenging questions were asked.

During the day the pupils looked at the United Nations charter on the Rights of the Child. Efan and Lewys presented about article 6 – The right to life and to be healthy. Our council will introduce more on the charter and some of the rights during the next academic year.

In order to get our latest news, follow us:

@Garth_Olwg, @MathGarth, @GwyddGarth

Cylch-lythyr Newyddion Ysgol Gyfun Garth Olwg

Sports

Welsh Athletics Champions and House Athletics Competition

We are immensely proud of our athletes this year. They have had success im many athletics competitions across mid and south Wales. The year 10 boys team in particular has been outstanding. The highlight was the national athletics tournmant held in Brecon on Thursday 13th of July. With a large number of schools competing, the boys managed to win the tournament beating Stanwell as they had won a greater number of silver medals! Congratulations to the team: Tom Stevens, Alex Halliday, Josh Karadogan, Dan John, Ethan Goode, Ben smith, Rhys Morgan, Brandon Payne, James Moore, James Hobbs, Will Holmes for being Welsha Champions 2017!

The following day saw the whole school competing in the inter-house athletics tournament, hled at the Cardiff Athletics Stadium. All the training and competing bore fruit as an incredibly high number of records were broken on what was an excellent day. Llys Dafydd went home with the Shield this year. Well done to everyone for their participation and effort.

Garth Olwg - Rhondda and Phontypridd Football Champions!

Year 10 boys football team were crowned champions of Rhondda and Pontypridd after a dominant performance in beating Bryncelynnog 4-0. The whole squad's commitment must be praised and this was typified by Rhys Morgan who returned early from a cricket tour in North England. A complete team performance with a rock solid defence and several individuals prominent in attack. Corey Thomas and Ethan Vaughan of Year 9 must also be praised on their contribution to this victory. Garth Olwg controlled the game from midfield, which set the platform to this one-sided and impressive performance. Josh Karadogan scored twice with one coming from a penalty kick, Adam Stanton converted from a corner and Ethan Vaughan capped an impressive performance with a fine solo goal. Without doubt, the squad should be proud of their display and the future looks promising. Da Iawn!

Garth Olwg vs Treorchy The final was full of passion and massive effort from every single individual in the green shirts. Looking rather retro in our kits that seemed to resemble a forgotten Liverpool team from the 80's we started the game excellently. The boys managed to get a great team goal at the very start with excellent feet from Sam Richards to get the ball to Tom West who managed to score from a tight angle. 1-0. Before we knew it the score doubled as Oliver Kittridge scored a magnificent header from a well-worked cross by Jordan Thomas. This all happened before the second half as well as the team's third goal by Sam Richards (the star player) with a generous yet heroic assist from Daniel Parry. Game won. Or so we thought…

The second half was slightly less comfortable, with Treorchy scoring a screamer early on and then after that making it 3-2. The sixth form did not panic and kept our lead, we even managed to get another by Sam once more, doubling his goal tally for the season. This goal proved to be very significant as Treorchy scored in the last few minutes making it 4-3. But that was it. Full time. Game won.

A massive congratulations to all of the boys, champions two years in a row. #upthegarth

By Tomos West yr.12

Our year 11 team also made it to the U16's final. Unfortunately, it was not possible to complete the fixture and make it a hatrick of cups but we can look forward with confidence and excitement to next year's competitions. Thanks to Mr Rhodri Jones and Mr Eurig Thomas for supporting and organising the teams.